## ASESIAD LLYWODRAETH CYMRU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

## YMGYNGHORIAD AR RWYMEDI O RAN GWAHANIAETHU AR SAIL OEDRAN MEWN PENSIYNAU DIFFODDWYR TÂN YNG NGHYMRU 2023

1. Cafodd holl bensiynau'r sector cyhoeddus yn y DU eu diwygio yn 2014-15 â'r nod cyffredinol o leihau'r gost i bwrs y wlad. Fodd bynnag, roedd yr unigolion hynny a oedd agosaf at ymddeol ar y pryd wedi'u "diogelu" a chaniatawyd iddynt aros fel aelodau o'u cynlluniau presennol, a oedd ar y cyfan yn gynlluniau mwy buddiol, am weddill eu gyrfa.

2. Ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru), roedd hyn yn golygu'r canlynol:

- Byddai aelodau actif a oedd, ar 1 Ebrill 2012, yng Nghynllun 1992 neu Gynllun 2007 (Arbennig) ac yn 45 oed neu'n hŷn yn aros yng Nghynllun 1992 neu Gynllun 2007 (Arbennig).

- Byddai aelodau actif a oedd, ar 1 Ebrill 2012, yng Nghynllun 2007 (Safonol) ac yn 50 oed neu'n hŷn yn aros yng Nghynllun 2007 (Safonol).

- Byddai cyfnod pellach o ddiogelwch taprog o hyd at 4 blynedd i aelodau'r cynllun. Byddai aelodau a oedd o fewn 4 blynedd o gymhwyso ar gyfer diogelwch trosiannol, ar 1 Ebrill 2012, yn cael diogelwch cyfyngedig felly am bob mis y byddent yn dod yn agosach at gymhwyso ar gyfer diogelwch trosiannol, byddent ar gyfartaledd yn cael tua 53 diwrnod o ddiogelwch ychwanegol. Byddai'r cyfnod gwasanaeth wedi'i ddiogelu ar gyfer unrhyw aelod o dan y trefniadau tapro hyn yn dod i ben erbyn 31 Mawrth 2022. Ar ddiwedd ei gyfnod wedi'i ddiogelu, byddai'n cael ei drosglwyddo i Gynllun 2015. Mae'r aelodau hyn yn perthyn i ddau gategori:

    a. Aelodau 1992 ac aelodau 2007 (Arbennig) a oedd rhwng 41 a 45 oed ar 1 Ebrill 2012.
    b. Aelodau 2007 (Safonol) a oedd rhwng 46 a 50 oed ar 1 Ebrill 2012.

3. Cyflwynwyd her gyfreithiol yn erbyn y dull hwnnw ar sail gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl ei fod yn cyfateb i achos o wahaniaethu o'r fath yn erbyn cyflogeion iau "heb eu diogelu", a oedd wedi'u cyflogi ar 1 Ebrill 2012 ond a oedd yn rhy ifanc i fod yn gymwys i gael diogelwch. Ni fu effaith andwyol ar unrhyw un a wnaeth ymuno â'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar ôl y dyddiad hwn (a fydd yn cynnwys y diffoddwyr tân ifancaf sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd) ac nid oes hawl gan yr unigolion hynny i rwymedi

4. Mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad atodedig ac yn y rheoliadau drafft cysylltiedig (Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymediadwy)

(Cymru) 2023) yn rhan o becyn o fesurau i unioni'r sefyllfa, ac maent yn ofynnol gan ***Ddeddf Pensiynau'r Sector Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 ("Deddf 2022"), a Chyfarwyddiadau dilynol gan Drysorlys EF***. Mae elfennau o'r Ddeddf a'r Cyfarwyddiadau yn rhagnodol ac mae rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i weithredu mewn ffordd benodedig. Mae'r ymgynghoriad yn esbonio lle mae diwygiadau i reoliadau'r cynllun yn ofynnol gan Drysorlys EF ac yn nodi manylion am gynigion ar faterion lle mae gan Weinidogion Cymru rywfaint o ddisgresiwn. Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn canolbwyntio ar yr ail elfen.

5. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Deddf 2022 a Chyfarwyddiadau dilynol Trysorlys EF. Mae copïau o'r asesiadau hynny ar gael ***yma*** ar gyfer Deddf 2022 ac ***yma*** ar gyfer y Cyfarwyddiadau.

6. Mae tair prif elfen i becyn diwygiadau'r Trysorlys:

a. Trosglwyddo'r holl aelodau sydd ar ôl yn y cynlluniau etifeddol i mewn i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill 2022 fel bod pob aelod actif ni waeth beth fo'i oedran bellach yn rhan o Gynllun 2015. Mae hyn eisoes wedi'i wneud, o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022.

b. Dychwelyd yr aelodau yr effeithir arnynt i'w cynlluniau etifeddol ar gyfer cyfnod y rhwymedi o 1 Ebrill 2015 (sef y dyddiad y gwnaeth y rhan fwyaf o'r aelodau drosglwyddo'n wreiddiol i gynllun 2015 ond y caniatawyd i rai aelodau a oedd agosaf at oedran ymddeol aros yn y cynllun etifeddol), i 1 Ebrill 2022 (pan gafodd pob aelod ni waeth beth fo'i oedran ei drosglwyddo i gynllun 2015) ac ymdrin â chanlyniadau hynny;

c. Sefydlu'r dulliau y gall aelodau yr effeithir arnynt eu defnyddio, ar adeg ymddeol (neu ar unwaith, os byddant eisoes wedi ymddeol), i ddewis y cynllun sy'n gymwys i'w gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi, a darparu ar gyfer y canlyniadau.

7. Mae'r ymgynghoriad a'r rheoliadau, ac felly'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â b ac c uchod. Gan fod hanfod yr ymgynghoriad yn ymwneud â rhwymedi o ran gwahaniaethu ar sail oedran, mae'r rhan fwyaf o'i gynnwys yn cyfeirio at fanylion yr effaith ar gyfer y nodwedd warchodedig hon. Felly nid yw'r Asesiad hwn yn anelu at ailadrodd y manylion hynny, ond yn hytrach at grynhoi'r cynigion a'r effeithiau allweddol gan gyfeirio at adrannau allweddol o'r ddogfen ymgynghori ei hun er mwyn cael unrhyw fanylion pellach sydd eu hangen.

## Dadansoddiad o'r Data Perthnasol

8. Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi darparu dadansoddiad er mwyn helpu Gweinidogion Cymru wrth iddynt ystyried effaith y cynigion polisi a nodir isod. Mae copi o'r adroddiad llawn wedi'i atodi i'r ddogfen hon. Nodir rhywfaint o'r data allweddol isod:

- O'r 2,774 o aelodau actif a oedd yn rhan o gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn 2016, mae 69% yn gymwys i gael rhwymedi ôl-weithredol, gan gynnwys 40% nad

oeddent wedi'u diogelu gan eu bod islaw'r meini prawf o ran yr oedran diogelu, ac roedd 29% yn aelodau wedi'u diogelu y byddant bellach yn cael yr un dewisiadau o ran rhwymedi ag aelodau nad oeddent wedi'u diogelu er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw achosion pellach o wahaniaethu ar sail oedran eu cyflwyno'n anfwriadol.

- Mae'r aelodau sy'n gymwys i ddewis rhwng buddion o dan y cynllun etifeddol a'r cynllun diwygiedig ychydig yn hŷn na'r aelodaeth actif gyffredinol. Yn gyffredinol, mae'r unigolion hynny nad ydynt yn gymwys i ddewis rhwng buddion cynlluniau etifeddol a chynlluniau diwygiedig yn iau na'r aelodaeth actif gyffredinol ond mae hynny am nad oeddent wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth tân ac achub ar y dyddiadau perthnasol.

- Mae'r aelodau y disgwylir iddynt gael y budd mwyaf o gael cynnig dewis o fuddion yn ystod cyfnod y rhwymedi yn iau na'r boblogaeth aelodau cymwys. Fodd bynnag, o ystyried bod y penderfyniad polisi hwn yn anelu at sicrhau y caiff pob aelod cymwys ei drin yn yr un ffordd â'r aelodau hynny sydd agosaf at ymddeol (h.y. aelodau wedi'u diogelu), mae hyn i'w ddisgwyl.

- Menywod oedd 4% o aelodaeth actif y cynlluniau diffoddwyr tân ym mis Mawrth 2016. Mae canran yr aelodau nad ydynt yn gymwys i ddewis rhwng buddion cynlluniau diwygiedig a chynlluniau etifeddol dros Gyfnod y Rhwymedi sy'n fenywaidd ychydig yn uwch na chanran yr aelodau benywaidd sy'n gymwys i wneud y dewis hwn. Mae hyn gan fod cyfran y recriwtiaid diweddar sy'n fenywod wedi cynyddu.

- Nid oes gan Lywodraeth Cymru nac Adran Actiwari'r Llywodraeth ddata am gynllun pensiwn y diffoddwyr tân mewn perthynas ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill (anabledd, hil, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, neu statws priodasol neu bartneriaeth sifil). Serch hynny, cafodd effaith y cynigion ar aelodau a'u goroeswyr â'r nodweddion gwarchodedig hyn fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac fe'u hadlewyrchir yn y dadansoddiad isod.

## Cynigion Polisi Unigol

## Aelodaeth o gynlluniau (yn nodi'r unigolion hynny sy'n gymwys i gael rhwymedi ôl-weithredol) (Gweler paragraffau 22-38 o'r Ddogfen Ymgynghori)

9. Mae Deddf 2022 ei hun yn nodi'r unigolion hynny y mae'r hawl ganddynt i rwymedi, a'r broses ar gyfer dychwelyd yr aelodau hynny i'r cynlluniau etifeddol ar gyfer cyfod y rhwymedi rhwng 2015-2022. Bydd rheoliadau'r rhwymedi yn cynnwys dau gynnig ychwanegol:

- Er mwyn bod yn gymwys i'r hawl i rwymedi, byddai angen bod diffoddwr tân wedi bod wedi'i gyflogi ar 1 Ebrill 2012 a hefyd ar 1 Ebrill 2015 (neu fod ganddo fwlch o lai na 5 mlynedd yn ei wasanaeth ar y naill o'r dyddiadau hyn neu'r ddau ddyddiad). Ar gyfer yr unigolion hynny sydd â chontractau lluosog â'r un cyflogwr

yn ystod cyfnod y rhwymedi (er enghraifft, contract amser cyflawn a chontract System Diffoddwyr Tân Wrth Gefn ar Ddyletswydd), rydym yn cynnig bod bodloni'r meini prawf yn un o'r contractau hynny yn rhoi'r hawl i rwymedi o dan y contract arall hefyd.

- Bydd gan aelodau a wnaeth optio allan o gynllun 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi yr hawl i optio yn ôl i mewn i'w cynllun etifeddol yn ôl-weithredol ar gyfer cyfnod y rhwymedi. Nid ydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i aelodau brofi eu bod wedi optio allan o'r cynllun oherwydd y gwahaniaethu a fu gan y byddai hynny'n rhoi baich annheg ar aelodau ac ar reolwyr cynlluniau.

10. Mae pob rhwymedi, gan gynnwys y ddau gynnig uchod, yn ceisio dileu'r achosion o wahaniaethu ar sail oedran a ddeilliodd o'r ddeddfwriaeth flaenorol. Felly, bydd y cynigion uchod a thrwy gydol y ddogfen yn cael effaith gadarnhaol ar aelodau iau o gynllun y diffoddwyr tân ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd o ran cyflogaeth a nodir yn Neddf 2022. Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith benodol mewn perthynas â'r cynigion uchod. Mae gan unrhyw un sydd â chontractau cyflogaeth lluosog â'r un cyflogwr ac unrhyw un sy'n gymwys i gael rhwymedi yn ôl ei statws cyflogaeth ond a wnaeth optio allan o'r cynllun yr hawl i'r rhwymedi uchod ni waeth beth fo'i oedran na'i rywedd. Nid ydym o'r farn bod y cynigion hyn yn cael effaith andwyol, nac unrhyw effaith arall, ar aelodau ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill.

## Cyfraniadau (gweler paragraffau 39-62 o'r Ddogfen Ymgynghori)

11. Mae'n ofynnol i bob aelod actif o bob cynllun pensiwn diffoddwyr tân dalu cyfraniadau i mewn i'r cynlluniau hynny, yn gyfnewid am y buddion y byddant yn eu cael adeg ymddeol. Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogeion yn amrywio yn ôl lefel y cyflog ac maent yn wahanol ar gyfer y tri chynllun. Fel egwyddor gyffredinol, y nod yw sicrhau bod aelodau yn talu'r cyfraniadau y byddent wedi'u talu pe na fyddent erioed wedi gadael y cynllun etifeddol. Lle ceir diffyg mewn cyfraniadau, bydd angen i'r aelod ad-dalu'r swm hwnnw i reolwr y cynllun; a lle ceir gwarged, bydd angen i reolwr y cynllun ad-dalu'r swm hwnnw i'r aelod.

12. Mae ein cynigion ar gyfer gwneud hynny yn cynnwys y canlynol:

- Wrth gyfrifo gwarged neu ddiffyg cyfraniadau aelod, dylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau gymhwyso hawl aelod i wyliau cyfraniadau (gweler paragraff 46 o'r ddogfen ymgynghori).

- Byddai'n ofynnol i reolwyr cynlluniau ad-dalu gwargedau mewn cyfraniadau i aelod perthnasol fel cyfandaliad unigol yn unig, ond dylid caniatáu i aelodau o gynlluniau â diffyg cyfraniadau ddewis i'w ad-dalu fel cyfandaliad neu (os bydd y diffyg yn £100 o leiaf) mewn rhandaliadau dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd.

- Dylai fod gan aelodau o gynlluniau sydd â hawl i ad-daliad o gyfraniadau cyfnod y rhwymedi yr hawl i'w hepgor, er mwyn osgoi gorfod ei ad-dalu adeg ymddeol. Rydym yn cynnig hyn gan fod yna rai amgylchiadau lle mae aelodau yn debygol o ddewis buddion cynllun 2005 yn hytrach na buddion cynlluniau etifeddol adeg

ymddeol. Er enghraifft, byddai'n ofynnol i aelod a gaiff ei ddychwelyd i gynllun 2007 pan gaiff rhwymedi ei weithredu ac sy'n derbyn ad-daliad cyfraniadau ac yn ddiweddarach yn dewis buddion cynllun 2015 adeg ymddeol ad-dalu cyfraniadau adeg ymddeol, ynghyd â llog.

- Caiff buddion aelodau o gynlluniau sydd eisoes wedi ymddeol naill ai ar sail oedran neu ar sail afiechyd eu haddasu gan ddibynnu ar eu dewis uniongyrchol. Caiff unrhyw ddiffyg neu warged cyfraniadau ei gynnwys yn y cyfrifiad hwn fel mai un cywiriad a wneir i fuddion yr aelod.

13. Nid ydym o'r farn y bydd cynigion i wneud iawn am gyfraniadau cyflogeion er mwyn cael gafael ar fuddion mewn cynllun amgen yn cael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. Bydd yn rhaid i ddiffoddwyr tân iau y bydd bellach ganddynt yr hawl i ddod yn aelodau o'u cynllun etifeddol ar gyfer cyfnod y rhwymedi dalu'r cyfraniadau sy'n ddyledus ar gyfer y budd hwnnw, ond dim ond er mwyn eu rhoi ar sail gyfartal i ddiffoddwyr tân hŷn sydd “wedi'u diogelu” sydd eisoes wedi gwneud cyfraniadau o'r fath. Mae'r cynigion yn caniatáu i'r ad-daliadau hyn gael eu talu dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd er mwyn lleihau unrhyw galedi ariannol.

## Dulliau dewis (Paragraffau 63-89 o'r Ddogfen Ymgynghori)

14. Mae Deddf 2002 yn ei gwneud yn ofynnol cynnig dau fath o ddewis:

   a. **Dewis uniongyrchol**, a wneir yn fuan ar ôl i'r rheoliadau hyn ddod i rym, ar gyfer aelodau â hawl sydd eisoes wedi ymddeol (neu sydd eisoes wedi marw);
   b. **Dewis gohiriedig** ar gyfer aelodau actif neu aelodau gohiriedig â hawl. Ar gyfer aelodau actif, gwneir y dewis hwn adeg ymddeol; ar gyfer aelodau gohiriedig, caiff ei wneud pan ddaw buddion eu cynllun yn daladwy – fel arfer pan fyddant yn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth.

15. Mae'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori ac yn y rheoliadau drafft yn nodi'r broses y dylai rheolwyr cynlluniau ei rhoi ar waith er mwyn galluogi aelodau i wneud y dewis hwnnw mewn modd amserol a phriodol.

**16.** Bydd y dull dewis hwn ar gael i bob aelod sy'n gymwys i gael rhwymedi. Mae hynny'n cynnwys aelodau iau o gynlluniau nad oeddent wedi'u diogelu'n wreiddiol o dan drefniadau diogelwch trosiannol cynllun 2015 a diffoddwr tân hŷn a oedd wedi'u diogelu. Mae hyn er mwyn sicrhau na fyddwn, drwy gywiro un math o wahaniaethu yn erbyn diffoddwyr tân iau, yn anfwriadol yn cyflwyno math arall o wahaniaethu yn erbyn diffoddwyr tân hŷn. Nid ydym o'r farn bod y cynigion hyn yn cael effaith andwyol, nac unrhyw effaith arall, ar aelodau ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill.

## Ymddeol ar sail afiechyd (Gweler paragraffau 90-106 o'r Ddogfen Ymgynghori)

17. Mae'r tri chynllun pensiwn diffoddwyr tân yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi mynediad cynnar i'r rhai hynny sy'n gorfod ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd i'w pensiynau, yn aml ar delerau gwell. Fodd bynnag, mae darpariaethau afiechyd allweddol eraill y tri chynllun yn wahanol. Ar y cyfan, Cynllun 1992 yw'r cynllun mwyaf hael gan fod gan y cynllun hwn drothwy is ar gyfer gwneud penderfyniad am anabledd parhaol ac asesu unigolion o ran eu gallu i ymgymryd â chyflogaeth arall.

18. O dan Gynllun 1992, byddai aelod yn cael ei ystyried fel unigolyn ag “anabledd parhaol” (ac felly byddai ganddo'r hawl i bensiwn ar sail afiechyd haen is o leiaf) pe byddai ei analluogrwydd yn debygol o bara tan o leiaf oedran pensiwn arferol y Cynllun hwnnw, sef 55 oed. O dan Gynllun 2007 a Chynllun 2015, rhaid bod yr analluogrwydd yn debygol o bara tan o leiaf oedran pensiwn arferol y Cynlluniau hynny, sef 60 oed.

19. Mae'r gwahaniaethau hyn yn golygu y bydd angen ailystyried unrhyw unigolion a wnaeth ymddeol ar sail afiechyd yn ystod cyfnod y rhwymedi. Mae dychwelyd aelodau yr effeithir arnynt yn ôl-weithredol i'w cynlluniau etifeddol yn golygu y dylid bod wedi asesu achosion a ddigwyddodd yn erbyn meini prawf ymddeol ar sail afiechyd y cynllun etifeddol yn hytrach na meini prawf Cynllun 2015.

20. Mae ein cynigion fel a ganlyn:

- dylid ailasesu aelodau â hawl a wnaeth ymddeol ar sail afiechyd yn ystod cyfnod y rhwymedi yn erbyn meini prawf eu cynllun etifeddol neu Gynllun 2015, pa un bynnag sy'n berthnasol, a chynnig dewis uniongyrchol iddynt rhwng yr hawliau sy'n deillio o hynny; ond ni ddylid rhoi hawl awtomatig iddynt gael eu hailgyflogi. Mae hyn gan nad oes unrhyw ffordd ymarferol o gyflawni hyn. Gallai sawl blwyddyn fod wedi mynd heibio, â'r aelod yn cael buddion pensiwn yn ystod y cyfnod hwnnw; ac mae'n bosibl na fyddai'r aelod yn cyrraedd y safon ofynnol o ran ffitrwydd, hyfforddiant na gwybodaeth i weithio fel diffoddwr tân mwyach, hyd yn oed pe byddai swyddi gwag ar gael. Er y gall rheolwr cynllun gynnig opsiwn ailgyflogi i'r aelod os yw'n briodol, nid ydym o'r farn y byddai'n synhwyrol ceisio gwarantu'r hawl honno fel rhan o reoliadau'r cynllun.

- ni ddylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau ailarchwilio achosion lle na chaniatawyd i aelodau â hawl ymddeol ar sail afiechyd ac y gwnaethant barhau wedi'u cyflogi. Mae hyn gan y byddai'n amhosibl cywiro'r sefyllfa yn ôl-weithredol. Gallai ailasesiad o dan feini prawf cynllun 1992 ddangos y byddai wedi bod gan aelod yr hawl i ymddeol ar sail afiechyd o dan y cynllun hwnnw. Fodd bynnag, bydd aelodau o'r fath wedi parhau i weithio, i ennill cyflog ac i wneud cyfraniadau pensiwn i Gynllun 2015 yn y cyfamser, a byddai fwy neu lai'n amhosibl gwrthdroi'r sefyllfa honno.

- Dylai rheolwyr cynlluniau ailarchwilio achosion lle na chaniatawyd i aelodau yr effeithir arnynt lle mai Cynllun 1992 yw eu cynllun etifeddol ymddeol ar sail afiechyd ond y cawsant eu diswyddo ar sail cysylltiedig yn ymwneud â ffitrwydd

a/neu bresenoldeb gwael, a chynnig dewis uniongyrchol rhwng pensiwn ar sail afiechyd o dan Gynllun 1992 a phensiwn gohiriedig o dan Gynllun 2015 i unrhyw aelod y nodir y byddai wedi bod yn gymwys i ymddeol ar sail afiechyd o dan y Cynllun blaenorol.

21. O dan bob cynllun, dim ond pan fydd gan aelod o gynllun gyflwr meddygol neu nam tymor hir sy'n ei atal rhag gweithio fel diffoddwr tân (neu o gwbl) y caniateir iddo ymddeol ar sail afiechyd. Mewn sawl achos, gall hyn fod gyfystyr ag anabledd o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddai ein cynigion yn sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer achosion o'r fath, sy'n golygu eu bod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol ar aelodau o gynlluniau ag anabledd perthnasol.

22. Bwriedir i'r cynigion unioni'r achosion posibl o drin aelodau a oedd yn dioddef afiechyd yn annheg, a ddeilliodd o'r achosion cyffredinol o wahaniaethu ar sail oedran a nodwyd gan y Llysoedd. Felly, byddant yn cael effaith gadarnhaol ar aelodau iau y rhoddwyd yr hawl iddynt gael rhwymedi drwy eu rhoi yn yr un sefyllfa, cymaint â phosibl, ag aelodau hŷn.

**23.** Nid ydym o'r farn bod y cynigion hyn yn cael effaith andwyol, nac unrhyw effaith arall, ar aelodau ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill.

## Goroeswyr a buddion goroeswyr (Gweler paragraffau 107-131 o'r Ddogfen Ymgynghori)

24. Mae pob cynllun pensiwn diffoddwyr tân yn cynnig buddion i berthnasau agos aelodau o'r cynllun sy'n marw, boed hynny yn ystod cyfnod gwasanaeth actif neu ar ôl hynny. Fel arfer, bydd buddiolwyr o'r fath yn cynnwys priod, partner neu blant dibynnol yr aelod o'r cynllun, a chyfeirir atynt gyda'i gilydd fel “goroeswyr”. Mae'r rhwymedi a gynigir gennym yn yr ymgynghoriad yn effeithio ar oroeswyr a'u buddion mewn ffyrdd tebyg i aelodau'r cynllun eu hunain.

25. Mae cyfran uwch o aelodau gwrywaidd (96%) sy'n gymwys i ddewis buddion yn ystod cyfnod y rhwymedi. Nid oes gennym unrhyw ddata am gyfeiriadedd rhywiol y grŵp hwn, na diffoddwyr tân yn gyffredinol, ond os yw'n unol â'r boblogaeth gyffredinol, yna mae'n fwy tebygol mai partneriaid benywaidd sydd gan oroeswyr aelodau sydd wedi marw. Ond bydd y rhwymedi a gynigir yn y ddogfen ymgynghori ac a grynhoir isod yn effeithio ar oroeswyr gwrywaidd diffoddwyr tân benywaidd a phartneriaid o'r un rhyw yn yr un ffordd. Mae'r cynigion hefyd yn effeithio ar statws priodasol a phartneriaid sifil gan nad yw Cynllun 1992, yn arbennig, yn talu buddion goroeswr i bartneriaid sy'n cyd-fyw, dim ond i unigolion priod a phartneriaid sifil, ond fod Cynllun 2007 a Chynllun 2015 yn gwneud hynny.

26. Er bod y dull hwnnw yn gyfreithlon o hyd, gall olygu y caiff buddion a fyddai'n daladwy i briod neu bartner sifil sy'n goroesi eu gwadu i bartneriaid sy'n cyd-fyw. Byddai ein cynigion yn dileu'r risg honno i aelodau â'r hawl i rwymedi, drwy roi hawl i bartner sy'n goroesi gael buddion ni waeth p'un a oedd yn briod â'r unigolyn a fu farw neu'n rhan o bartneriaeth sifil ag ef ai peidio. Mae'r risg hon hefyd yn diflannu i oroeswyr aelodau actif a fydd yn marw yn y dyfodol, gan fod pob diffoddwr tân bellach yn aelod o Gynllun 2015.

27. Mae pob cynllun yn talu buddion i blant dibynnol sy'n goroesi hefyd, ond mae'r telerau a'r cyfraddau yn wahanol.

26. Nodir rhagor o fanylion am y cynigion a'u heffaith isod :-

- Pan fydd aelod o gynllun â hawl yn marw heb wneud dewis uniongyrchol neu ddewis gohiriedig, dylai'r dewis hwnnw gael ei wneud yn lle hynny gan “unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau”. Bydd yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn amrywio gan ddibynnu a oes un goroeswr sy'n oedolyn, neu ddau oroeswr sy'n oedolyn neu fwy, goroeswr unigol sy'n blentyn neu mwy nag un goroeswr sy'n blentyn mewn gwahanol gartrefi. Nodir yr amgylchiadau a'r unigolyn y cynigir y dylai ymgymryd â rôl yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau ym mharagraff 111 o'r ddogfen ymgynghori. Gallai'r priod, y partner sifil neu'r partner sy'n cyd-fyw sy'n goroesi neu riant neu warcheidwaid plentyn sy'n goroesi ymgymryd â rôl yr unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau. Dylid defnyddio meini prawf Cynllun 2015 ym mhob achos i nodi'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau. Mae hyn gan ein bod yn credu bod cwmpas ehangach Cynllun 2015, sy'n cynnwys bod partner sy'n cyd-fyw yn oroeswr cymwys, yn fwy tebygol o arwain at ganlyniad teg a fydd yn fwy cydnaws â realiti amgylchiadau domestig yr aelod sydd wedi marw ar yr adeg y bu farw.

- Os na fydd unrhyw gytundeb o ran pwy yw'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau, neu os bydd yr unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn methu â gwneud penderfyniad o fewn y terfyn amser, rhaid i reolwr y cynllun ystyried y gwnaed penderfyniad o blaid gosod gwasanaeth yr aelod yn ystod cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015. Mae hynny gan ei fod yn talu buddion i amrywiaeth ehangach o oroeswyr a hynny'n aml ar gyfradd uwch.

- Os bydd aelod o gynllun yn gwneud dewis uniongyrchol neu ddewis gohiriedig dilys cyn iddo farw, caiff y dewis hwnnw ei anrhydeddu ac ni fydd gan unrhyw oroeswr yr hawl i'w ailystyried. Mae hyn gan mai dewis yr aelod o'r cynllun yw'r dewis yn gyffredinol, ac nid dewis ei oroeswyr, ac y credwn y dylid anrhydeddu'r dewis hwnnw.

- Os bydd pensiwn goroeswr eisoes yn cael ei dalu, yna mae'n bosibl y bydd angen ei addasu i adlewyrchu'r dewis.

- Dylid adennill gordaliadau hanesyddol buddion goroeswr i oroeswyr sy'n unigolion cymwys sy'n gwneud penderfyniadau gan yr unigolion hynny, felly hefyd unrhyw ordaliad o ran cyfandaliadau marwolaeth a ailgyfrifwyd ar sail dewis yr unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau. Yn yr un modd, byddai'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol i ad-dalu diffyg cyfraniadau, ond byddai hefyd ganddo'r hawl i gael unrhyw ad-daliad cyfraniadau. Mae hynny'n rhoi'r unigolyn cymwys sy'n gwneud penderfyniadau mewn sefyllfa debyg i aelod o'r cynllun sy'n bensiynwr.

- Fodd bynnag, dylid diystyru gordaliadau buddion goroeswyr neu gyfandaliadau marwolaeth i oroeswyr eraill. Bydd hynny'n cynnwys gordaliadau yn y gorffennol ac yn y dyfodol i blant sy'n goroesi sy'n byw mewn cartrefi gwahanol. Mae hyn

gan y byddai annheg disgwyl i'r unigolion hynny nad ydynt yn rhan o'r penderfyniad ad-dalu buddion a gafwyd yn ddidwyll ac y gallai rhwymedigaeth i'w had-dalu achosi caledi iddynt.

- Lle bu farw aelod yr effeithir arno yn ystod cyfnod y rhwymedi ac na fydd gan neb hawl i bensiwn goroeswr, ond ei fod wedi enwebu unigolyn dilys i gael cyfandaliad marwolaeth o dan Gynllun 2015, dylai rheolwr y cynllun dalu'r swm hwnnw heb fod angen cynnig dewis i'r enwebai.

27. Nid ydym o'r farn bod y cynigion hyn yn cael effaith andwyol, nac unrhyw effaith arall, ar aelodau ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig, ac eithrio'r rhai hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff 25.

## Buddion pensiwn ychwanegol (Gweler paragraffau 132-139 o'r Ddogfen Ymgynghori)

28. Mae'r cynlluniau pensiwn etifeddol a chynllun 2015 y diffoddwyr tân yn caniatáu i aelodau dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol er mwyn cynyddu eu buddion pensiwn. Fodd bynnag, mae'r telerau y gwneir y cyfraniadau gwirfoddol hyn oddi tanynt yn wahanol ac felly nid oes modd trosi pensiwn ychwanegol yng nghynllun 2015 i mewn i'r cynlluniau etifeddol. Felly, y polisi arfaethedig a nodir yn rheoliadau'r cynllun yw y bydd aelodau â hawl a brynodd bensiwn ychwanegol o dan Gynllun 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi yn gallu cael ad-daliad o gost hynny, ynghyd â llog. Fodd bynnag, ni all aelodau a fydd yn gwneud dewis uniongyrchol gael yr ad-daliad hwnnw os byddant yn gwneud dewis uniongyrchol o blaid Cynllun 2015. Yn hytrach, byddant yn cadw eu buddion pensiwn ychwanegol yng nghynllun 2015.

29. Ni fyddai gan aelodau eraill cymwys yr hawl hon ond byddai ganddynt hawl ôl-weithredol i brynu buddion pensiwn ychwanegol yn eu cynlluniau etifeddol yn ystod cyfnod y rhwymedi, ar yr un telerau ag a oedd yn gymwys i bryniant o'r fath a chan addasu cost gwneud hynny at ddibenion llog.

30. Fel gyda phob cynnig ar gyfer rhwymedi, bydd y cynigion ar gyfer pensiwn ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar aelodau iau o gynllun y diffoddwyr tân ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd o ran cyflogaeth a nodir yn Neddf 2022. Bydd rhwymedi yn rhoi mynediad i aelodau cymwys i'r un buddion pensiwn ychwanegol yn y cynlluniau etifeddol ag a ddarparwyd i aelodau a oedd wedi'u diogelu yn flaenorol a oedd yn agosach at ymddeol. Rydym yn cynnig y rhoddir cyfle i aelodau sydd eisoes yn cael buddion (yn gyffredinol, aelodau sydd wedi ymddeol ar sail eu hoedran neu afiechyd) ac y mae ganddynt felly yr hawl i ddewis uniongyrchol mewn perthynas â derbyn buddion y cynllun etifeddol neu gynllun newydd, gadw eu pensiwn ychwanegol o dan gynllun 2015, ond ni fydd y cyfle hwn ar gael i aelodau actif neu aelodau gohiriedig. Fodd bynnag, yn lle hynny, bydd aelodau actif neu aelodau gohiriedig wedi cael iawndal am unrhyw bensiwn ychwanegol yn y cynllun newydd, byddant hefyd yn cael y cyfle i brynu pensiwn ychwanegol yn y cynllun etifeddol ar gyfer y cyfnod rhwymediadwy, a byddant yn cael cyfle o hyd i brynu pensiwn ychwanegol yng nghynllun 2015 mewn perthynas â gwasanaeth yn ystod blynyddoedd yn y dyfodol. Ar ôl pwyso a mesur, rydym o'r farn bod y dull hwn yn cynnig dull teg a chyfartal.

31. Nid ydym o'r farn bod y cynigion hyn yn cael effaith andwyol, nac unrhyw effaith arall, ar aelodau ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill.

## Ysgaru a Diddymu (Paragraffau 140-161 o'r Ddogfen Ymgynghori)

32. Pan ddaw priodas i ben drwy ysgariad, neu pan gaiff partneriaeth sifil ei diddymu, gall hawliau pensiwn fod yn rhan o'r setliad ariannol y cytunir arno. Cyfeirir at yr unigolyn yr ymdrinnir â'i fuddion pensiwn yn y fath fodd fel yr *aelod debyd pensiwn*; a'r unigolyn arall sy'n rhan o'r ysgariad neu'r diddymiad, a fydd yn derbyn cyfran o fuddion yr aelod debyd pensiwn, yw'r *aelod credyd pensiwn*. Mae'r penderfyniadau a wneir gan y llys fel arfer yn dibynnu ar gyfrifiad gan reolwr y cynllun o *werth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod* (CETV), h.y. gwerth cyfredol buddion pensiwn yr aelod wedi'i fynegi ar ffurf arian parod.

33. Gall y penderfyniadau y bydd aelodau â hawl yn eu gwneud fel rhan o'r rhwymedi cyffredinol ar gyfer gwahaniaethu ar sail oedran newid gwerth eu buddion pensiwn, ac o ganlyniad, mae'n bosibl y bydd angen newid y gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod a gyfrifwyd fel rhan o ysgariad neu ddiddymiad hefyd. Nid yw aelodau credyd pensiwn wedi profi unrhyw wahaniaethu ac nid oes hawl ganddynt eu hunain i rwymedi, nac i wneud unrhyw fath o ddewis uniongyrchol neu ohiriedig. Felly, mae'r cynigion a nodir mewn perthynas ag aelodau credyd pensiwn yn sicrhau bod y system yn parhau i weithio mewn ffordd deg. Maent yn gweithio drwy addasu buddion pensiwn y ddau barti. Mae'r cynigion manwl yn amrywio gan ddibynnu a yw'r cytundeb wedi'i nodi fel rhan o orchymyn atafael pensiwn, gorchymyn rhannu pensiwn, neu drefniant gwrthbwyso pensiwn, ond yn gyffredinol a lle y bo'n bosibl, mae'r cynigion yn argymell y dylid ailgyfrifo'r gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod i adlewyrchu buddion cynllun 2015 a buddion y cynllun etifeddol ac y dylid defnyddio'r uchaf o'r ddau mewn perthynas â'r aelod credyd pensiwn.

34. Mae cyfran uwch o aelodau gwrywaidd o gynlluniau (96%) sy'n gymwys i gael rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran nag aelodau benywaidd. Mae hynny'n golygu mai dynion fydd y rhan fwyaf o'r aelodau debyd pensiwn. Nid oes gennym unrhyw ddata am gyfeiriadedd rhywiol y grŵp hwn, na diffoddwyr tân yn gyffredinol, ond os yw'n unol â'r boblogaeth gyffredinol, yna mae'n fwy tebygol mai menywod fydd y rhan fwyaf o'r aelodau credyd pensiwn. Fodd bynnag, bydd y rhwymedi a gynigir yn y ddogfen ymgynghori ac a grynhoir isod yn effeithio yn yr un ffordd ar aelodau credyd pensiwn gwrywaidd a oedd yn briod â diffoddwr tân benywaidd neu mewn partneriaeth sifil â hi, ac ar bartneriaid gwrywaidd a benywaidd o briodasau rhwng unigolion o'r un rhyw neu bartneriaeth sifil sydd wedi dod i ben drwy ysgariad neu ddiddymiad.

35. Bydd y cynigion ym mharagraff 33 ac a nodir yn fanylach yn y ddogfen ymgynghori yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol ar bobl sydd wedi ysgaru, ni waeth beth fo'u rhywedd neu eu rhywioldeb. Nid ydym o'r farn bod y cynigion hyn yn cael effaith andwyol, nac unrhyw effaith arall, ar aelodau ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill.

## Trosglwyddiadau rhwng cynlluniau (Paragraffau 162-180 o'r Ddogfen Ymgynghori)

36. Pan fydd cyflogeion, gan gynnwys diffoddwyr tân, yn symud rhwng cyflogwyr sy'n cynnig gwahanol gynlluniau pensiwn galwedigaethol, mae'n bosibl y byddant yn cael cynnig trosglwyddo eu pensiwn o'u hen gyflogaeth i gynllun eu cyflogwr newydd, os bydd y ddau gynllun yn gynlluniau buddion diffiniedig ac yn caniatáu trosglwyddiadau o'r fath. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi cynigion ar gyfer ailgyfrifo gwerthoedd trosglwyddo er mwyn ystyried buddion cynlluniau etifeddol. Ar gyfer trosglwyddiadau rhwng cynlluniau diffoddwyr tân a chynlluniau eraill yn y sector cyhoeddus, yn gyffredinol bydd aelodau yn cael dewis o fuddion adeg ymddeol. Ar gyfer trosglwyddiadau i gynlluniau y tu allan i'r sector cyhoeddus, caiff y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ei ailgyfrifo ac ychwanegir ato os bydd angen. Lle nad oes modd gwneud hynny, darperir iawndal.

37. Mae'r diwygiadau yn anelu at sicrhau bod aelodau yr effeithir arnynt yn yr un sefyllfa ag y byddent wedi bod pe na fyddai unrhyw achos o wahaniaethu ar sail oedran wedi digwydd. Felly fel gyda'r holl ddiwygiadau, ceir effaith gadarnhaol ar ddiffoddwyr tân iau ond hefyd ar ddiffoddwyr tân hŷn gan y bydd y ddau yn cael y cyfle i ddewis y buddion mwyaf buddiol gan gynnwys trosglwyddiadau. Nid ydym o'r farn bod y cynigion hyn yn cael effaith andwyol, nac unrhyw effaith arall, ar aelodau ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill.

## Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

38. Nid ydym o'r farn y bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar hawliau dynol pobl.

## Rhan 2 o Gytundeb Ymadael y DU â'r UE, ynghyd â'r Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau’r AEE-EFTA a Chytundeb Hawliau Dinasyddion Swisaidd

39. Byddai'r darpariaethau a gynigir gennym yr un mor gymwys i bob diffoddwr tân, o unrhyw genedligrwydd, sydd wedi'i gyflogi gan Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru sy'n gymwys i ddod yn aelodau o gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Felly nid ydym o'r farn bod y cynigion hyn yn effeithio ar hawliau dinasyddion o dan y cytundebau uchod.